# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 21 Ionawr 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r cynllun dylunio arloesol "Growing Green" sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau tai yn yr UDA. (WAQ41355)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Sawl grant a roddwyd gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu yn a) 2002, b) 2003, c) 2004. (WAQ41353)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Sawl grant y disgwylir i Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu ei roi yn ystod 2005, a beth fydd gwerth y grantiau hynny. (WAQ41354)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau gofal lliniarol sydd ar gael ar gyfer pobl Islwyn. (WAQ41356)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl hyn yng Nghymru sy'n byw mewn cartrefi heb wres canolog, a hynny fesul blwyddyn ers 1999. (WAQ41358)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cartrefi sydd heb wres canolog yng Nghymru, a hynny fesul blwyddyn ers 1999. (WAQ41357)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad oes unrhyw bensiynwr yn byw mewn cartref heb wres canolog. (WAQ41359)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael â'r Post Brenhinol a'i chymheiriaid yn San Steffan ynghylch y cynlluniau i ostwng nifer y casgliadau o flychau post gwledig i un casgliad y diwrnod. (WAQ41363)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Post Brenhinol a'i chymheiriaid yn San Steffan ynghylch yr effaith ar bostmyn a phostwragedd o ostwng nifer y casgliadau mewn ardaloedd gwledig i un casgliad y diwrnod. (WAQ41362)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad a wnaed gan y Gweinidog o'r effaith ar gymunedau gwledig o ostwng nifer y casgliadau o flychau post mewn ardaloedd gwledig i un casgliad y diwrnod. (WAQ41361)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y swyddfeydd post yng Nghymru, a hynny fesul blwyddyn ers 1999. (WAQ41360)